ATODLEN 8

Addasu'r Rheoliadau Staffio

**24.** Yn rheoliad 24A yn lle paragraff (1) rhodder—

"(1) Ni chaiff unrhyw berson a gyflenwir gan fusnes cyflogaeth i ffederasiwn neu ysgol ffederal ddechrau gweithio fel athro neu athrawes neu aelod o staff cymorth yn y ffederasiwn neu ysgol ffederal oni fydd y corff llywodraethu wedi cael—

(a) hysbysiad ysgrifenedig oddi wrth y busnes cyflogaeth ynglŷn â'r person hwnnw—

(i) bod y gwiriadau y cyfeirir atynt yn rheoliad 15A(6) wedi cael eu gwneud;

(ii) bod cais am dystysgrif gwasanaeth datgelu a gwahardd wedi cael ei wneud, neu fod tystysgrif o'r fath wedi dod i law mewn ymateb i gais a wnaed gan y busnes cyflogaeth hwnnw neu gan fusnes cyflogaeth arall; a

(iii) p'un a oedd yn datgelu, os cafodd y busnes cyflogaeth dystysgrif o'r fath cyn bod y person i ddechrau gweithio yn y ffederasiwn neu ysgol ffederal, unrhyw fater neu wybodaeth, neu a roddwyd unrhyw wybodaeth i'r busnes cyflogaeth yn unol ag adran 113B(6) o Ddeddf yr Heddlu 1997; a

(b) os cafodd y busnes cyflogaeth dystysgrif gwasanaeth datgelu a gwahardd cyn bod y person i ddechrau gweithio yn y ffederasiwn neu ysgol ffederal, a bod honno'n datgelu unrhyw fater neu wybodaeth, neu a roddwyd unrhyw wybodaeth i'r busnes cyflogaeth yn unol ag adran 113B(6) o Ddeddf yr Heddlu 1997, copi o'r dystysgrif.".